# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 7

TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

*Materion gweinyddol*

### 129 Y sêl

(1) Mae'r Tribiwnlys i gael sêl swyddogol.

(2) Mae pob dogfen yr honnir ei bod yn dwyn sêl swyddogol y Tribiwnlys i'w derbyn yn dystiolaeth yng Nghymru a Lloegr heb brawf pellach.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os dangosir nad yw'r ddogfen yn dwyn sêl swyddogol y Tribiwnlys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 129 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 129 mewn grym ar 30.4.2015 gan O.S. 2015/1217, **ergl. 2**

### 130 Y flwyddyn ariannol

(1) Blwyddyn ariannol gyntaf y Tribiwnlys yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod cychwyn ac sy'n dod i ben—

(a) y 31 Mawrth canlynol (os 1 Ebrill yw'r diwrnod cychwyn), neu

(b) yr ail 31 Mawrth canlynol (os nad 1 Ebrill yw'r diwrnod cychwyn).

(2) Yn ddarostyngedig i hynny, blwyddyn ariannol y Tribiwnlys yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

(3) Yn yr adran hon ystyr "diwrnod cychwyn" yw'r diwrnod y daw adran 120 i rym.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Materion gweinyddol. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 130 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I4** A. 130 mewn grym ar 30.4.2015 gan O.S. 2015/1217, **ergl. 2**

## 131 Swydd y Llywydd yn wag

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw swydd y Llywydd yn wag.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benodi un neu ragor o aelodau'r Tribiwnlys sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith i arfer unrhyw un neu ragor neu'r oll o swyddogaethau'r Llywydd.

(3) Os na fydd, neu i'r graddau na fydd, swyddogaethau'r Llywydd yn arferadwy gan aelod sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith yn unol ag is-adran (2), caiff Gweinidogion Cymru arfer y swyddogaethau.

(4) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru gymryd rhan yn y gwaith o ddyfarnu unrhyw achosion gerbron y Tribiwnlys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 131 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I6** A. 131 mewn grym ar 7.1.2014 gan O.S. 2013/3140, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Materion gweinyddol.